O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 563 (Cy. 163)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465, yr A40, yr A449, yr A470 a'r A4060 (Lleoliadau Amrywiol yn Ne Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mai 2016* |
| *Yn dod i rym* | *9 Mai 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465), Cefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40 a'r A449), Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A40), Cefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (yr A40), Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mai 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465, yr A40, yr A449, yr A470 a'r A4060 (Lleoliadau Amrywiol yn Ne Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o